

HYSBYSEB SWYDD

TEITL Y RÔL: RHEOLWR GRŴP ATYNIADAU YMWELWYR

RHIF ADNABOD Y SWYDD: PARHAOL

GRADD: BAND J SCP 41 – SCP 45 (£37,107 - £40, 858)

ORIAU: 37 awr yr wythnos

LLEOLIAD: Neuadd Sir Trefynwy a Chastell Cil-y-coed ond gall hyn newid yn y dyfodol os oes angen newid lleoliad y gwasanaeth. Ni thelir treuliau adleoli neu ymyrryd os yw hyn yn digwydd.

YN ATEBOL I: Rheolwr Busnes ar gyfer Gwasanaethau Twristiaeth, Hamdden, Diwylliant ac Ieuenctid

ASESIAD Y GYMRAEG: Sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol

Pwrpas y Rôl hon:

Yn arwain yr hyn sydd gan 'Ymweld â Sir Fynwy' i'w gynnig, mae'r swydd yn gyfrifol am berfformiad gweithredol, y nifer o ymwelwyr sydd yn mynychu a manteisio i'r eithaf ar y ffynonellau incwm sy'n deillio o Atyniadau Ymwelwyr Sir Fynwy, sef Castell a Pharc Gwledig Cil-y-coed, Hen Orsaf Tyndyrn a Neuadd Sir Trefynwy.

Bydd profiad blaenorol gennych o weithio gyda'r cyhoedd a rheoli timau o staff gan gynnwys digwyddiadau.

Bydd oriau gwaith yn cynnwys yn ystod y dydd, yr hwyr a phenwythnosau.

Yn fwy na dim, byddwch yn medru dangos eich bod wedi darparu gwasanaeth o safon uchel mewn maes perthnasol, gofal cwsmer ardderchog, ac yn fwy na dim, egni, brwdfrydedd ac ymroddiad.

Os ydych angen unrhyw wybodaeth bellach am y swydd hon, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda: Richard Simpkins, Rheolwr Busnes, Gwasanaethau Twristiaeth, Hamdden, Diwylliant ac Ieuenctid ar 07884061183.

Dyddiad Cau: 12pm ar ddydd Gwener, 24^{ain} Awst 2018

Gofynnir i chi nodi na allwn dderbyn CV

Gellir llenwi ffurflenni cais ar-lein neu eu lawrlwytho drwy fynd i:

<http://www.monmouthshire.gov.uk/home/education/jobs-and-employment/how-to-apply-for-council-jobs/>

Gellir cyflwyno ceisiadau yn y Gymraeg ac ni chaiff cais a gyflwynir yn y Gymraeg ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

Ar ôl eu llenwi, dylid dychwelyd ffurflenni cais ar-lein neu eu lawrlwytho drwy:
Gwasanaethau Pobl, Cyngor Sir Fynwy, Blwch SP 106, CIL-Y-COED, NP26 9AN

Mae Cyngor Sir Fynwy yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob adran o'r gymuned.

PROFFIL Y RÔL

HYSBYSEB SWYDD

TEITL Y RÔL: RHEOLWR GRŴP ATYNIADAU YMWELWYR

RHIF ADNABOD Y SWYDD: PARHAOL

GRADD: BAND J SCP 41 – SCP 45 (£37,107 - £40, 858)

ORIAU: 37 awr yr wythnos

LLEOLIAD: Neuadd Sir Trefynwy a Chastell Cil-y-coed ond gall hyn newid yn y dyfodol os oes angen newid lleoliad y gwasanaeth. Ni thelir treuliau adleoli neu ymyrryd os yw hyn yn digwydd.

YN ATEBOL I: Rheolwr Busnes ar gyfer Gwasanaethau Twristiaeth, Hamdden, Diwylliant ac Ieuenctid

ASESIAD Y GYMRAEG: Sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol

DIOGELU:

Mae Diogelu ac Amddiffyn Plant ac Oedolion yn flaenoriaethau allweddol i'r Cyngor. Ein nod yw cefnogi plant ac oedolion sydd mewn perygl i fod mor ddiogel ag y gallant ac i gyflawni eu potensial. Mae holl weithwyr a gwirfoddolwyr y Cyngor yn gyfrifol am chwarae rhan yng ngwaith lles, diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl. Bydd yr holl weithwyr a gwirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi i'r lefel briodol o ddiogelu ac mae ganddynt ddyletswydd i gyflawni eu cyfrifoldebau personol dros ddiogelu.

Pwrpas y Rôl hon:-

Yn arwain yr hyn sydd gan 'Ymweld â Sir Fynwy' i'w gynnig, mae'r swydd yn gyfrifol am berfformiad gweithredol, y nifer o ymwelwyr sydd yn mynychu a manteisio i'r eithaf ar y ffynonellau incwm sy'n deillio o Atyniadau Ymwelwyr Sir Fynwy, sef Castell a Pharc Gwledig Cil-y-coed, Hen Orsaf Tyndyrn a Neuadd Sir Trefynwy.

Bydd eich cyfrifoldebau yn cynnwys:-

Rheoli ac Ymgysylltu ag Ymwelwyr

Yn cyflwyno meddylfryd masnachol a gwasanaeth cwsmer ardderchog ar draws gweithrediadau Atyniadau Sir Fynwy o ddydd i ddydd.

Yn sicrhau bod profiad ymwelwyr o'r safon uchaf drwy reoli'r safle yn effeithiol a meithrin diwylliant o wasanaeth cwsmer ardderchog.

Yn sicrhau bod cynnyrch/digwyddiadau/lleoliadau yn cwrdd â gofynion cwsmeriaid ac yn creu'r elw mwyaf posib.

Yn cyfrannu at lwyddiant masnachol a datblygiad a dyfodol Atyniadau Sir Fynwy.

Yn creu profiadau ac awyrgylch deniadol sydd yn annog pobl i ymweld gydag Atyniadau Sir Fynwy eto a denu cynulleidfaoedd newydd.

Yn rheoli, ysgogi a datblygu timau Atyniadau Sir Fynwy er mwyn darparu'r safon uchaf o ofal cwsmer o'r hol ymwelwyr drwy'r amser.

Yn sicrhau bod lefelau priodol o staffio yn cael eu cynnal drwy'r amser er mwyn cynnig profiad eithriadol i ymwelwyr, gan sicrhau bod timau'r Atyniadau Ymwelwyr yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'r rolau a'u cyfrifoldebau ac yn barod i weithredu mewn modd proffesiynol, cyfeillgar ac effeithiol.

Yn datblygu ac yn darparu agwedd fasnachol tuag at reoli'r Atyniadau Ymwelwyr gan gynnwys twf masnachol yr elfennau manwerthu a'r caffï, a'r digwyddiadau eraill, gyda strategaethau ar gyfer manteisio ar gyfleoedd masnachol a chynyddu ffynonellau refeniw.

Rheolaeth Weithredol

Yn Rheolwr Gweithrediadau cyffredinol, a phan fydd angen, bydd rhaid cymryd cyfrifoldeb ymarferol ar gyfer sicrhau bod yr holl Atyniadau a'r Atyniadau Ymwelwyr yn agored ac yn gweithredu yn unol gyda gweithdrefnau gweithredol a diogelwch ac yn diwallu anghenion y busnes.

Yn rheoli ac yn datblygu perfformiad y staff drwy gynnal adolygiadau rheolaidd, yn rhoi adborth a'n gweithredu hyfforddiant perthnasol pan fydd angen.

Yn gyfrifol, drwy reoli Arweinwyr y Safle yn effeithiol, am sicrhau bod y safleoedd yn cael eu cyflwyno i'r safonau uchaf posib drwy'r amser.

Yn goruchwyllo twf masnachol y gwaith masnachol a'r caffï a'r digwyddiadau, gan awgrymu strategaethau ar gyfer manteisio ar gyfleoedd masnachol a chynyddu ffynonellau refeniw.

Yn goruchwyllo'r berthynas rhwng y cyflenwyr a'r contractwyr sydd yn ymwneud gyda'r Atyniadau Ymwelwyr a'n monitro perfformiad er mwyn sicrhau bod nwyddau a gwasanaethau yn cydymffurfio ag anghenion y cytundeb.

Yn sicrhau bod y gweithdrefnau a'r rheolau ariannol a thrafod arian parod mewn lle drwy'r amser a bod yna archwiliad llawn yn cael ei gynnal ac ar gael ar gyfer ei adolygu.

Yn rheoli cyllidebau ar gyfer meysydd o fewn eich cyfrifoldeb a'n darparu adroddiadau cyson drwy'r systemau rheoli cyllid ar berfformiad ac unrhyw amrywiaethau i'r gyllideb.

Gweithio gyda'r uwch dîm rheoli ar gyfer gosod y cyllidebau refeniw blynyddol a'r cyllidebau gorbenion yn eich meysydd o gyfrifoldeb.

Yn rheoli unrhyw refeniw newydd neu gyfredol y dylid eu rheoli dan yr egwyddor 'Ymweld â Sir Fynwy'.

Iechyd a Diogelwch

Yn sicrhau diogelwch yr holl ymwelwyr tra eu bod ar y safleoedd.

Yn cynnal gwiriadau o dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 er mwyn sicrhau bod awyrgylch gwaith diogel yn rhan o'r holl safleoedd.

Yn sicrhau bod yr holl Bolisiau a Gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch ar gyfer Atyniadau Ymwelwyr a lleoliadau eraill yn cael eu deall a bod pawb yn cydymffurfio gyda hwy.

Yn sicrhau bod yr asesiadau risg, adroddiadau damweiniau a digwyddiadau ac arolygiadau cyson priodol yn cael eu cwblhau, eu cofnodi a'u cyfathrebu fel sydd angen.

Yn sicrhau bod yr holl staff wedi eu hyfforddi mewn gweithdrefnau diogelwch tân a gweithdrefnau brys, gan gynnwys gadael mewn argyfwng.

Yn sicrhau bod digon o bobl yn medru gweinyddu cymorth cyntaf ar draws y timau a bod yna ddigon o offer cymorth cyntaf ar gael.

Dyma'r hyn y mae modd i ni ddarparu i chi:-

Gliniadur, ffôn mudol a'r gallu i weithio yn hyblyg, yn amodol ar anghenion y gwasanaeth. Yn dîm brwdfrydig ac egnïol sydd yn ceisio sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer y Cyngor a'r cymunedau lleol. Cefnogaeth gan Dîm ehangach Sir Fynwy

Beth arall sydd angen i chi wybod.....Dyma Werthoedd Cyngor Fynwy:

- Tryloywder: Rydym am geisio bod yn agored ac onest er mwyn datblygu perthynas lle y mae pobl yn medru ymddiried yn ei gilydd.
- Tegwch: Rydym am geisio cynnig dewis teg, cyfleoedd a phrofiad ac i ddod yn fudiad lle y mae'r naill yn parhau'r llall.
- Hyblygrwydd: Rydym am geisio bod yn hyblyg wrth feddwl a gweithredu er mwyn dod yn fudiad effeithiol ac effeithlon.
- Gwaith tîm: Rydym am geisio gweithio gyda'n gilydd er mwyn rhannu ein llwyddiannau a'n methiannau drwy adeiladu ar ein cryfderau a chefnogi ein gilydd er mwyn cyflawni ein hamcanion.

A bydd y rôl hon yn gweithio gyda Sir Fynwy er mwyn cyflawni hyn.

Yn ychwanegol at hyn:

Mae'r holl weithwyr yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn ymddwyn bob tro mewn ffordd sydd yn gyson â Pholisi Cyfle Cyfartal Sir Fynwy yn eu meysydd perthnasol ac yn eu hymddygiad cyffredinol.

Mae Cyngor Sir Fynwy yn gweithredu polisi Dim Ysmygu yn y gweithle ac mae disgwyl i'r holl gyflogaion i gydymffurfio gyda hyn.

Manyleb Person

Sut fyddwn yn gwybod os mai chi yw'r person cywir ar gyfer y rôl hon? Fel yr ymgeisydd llwyddiannus, byddwch wedi arddangos y canlynol:-

Profiad

Profiad amlwg o reoli a llwyddo mewn awyrgylch sydd yn cynnwys rheoli atyniadau a digwyddiadau yn effeithiol. (A/C)

Profiad blaenorol o reoli chwaraeon a hamdden, rheoli arian, rheoli adnoddau a chyfleusterau. (A/C)

Record flaenorol o reoli cyllidebau gwasanaeth, ac ysgrifennu a diogelu Cynigion, Grantiau a chyllid di-graidd. (A/C)

Wedi rheoli parc gwledig a/neu safleoedd hanesyddol (A/C)

**Addysg a
Chymwysterau**

Cymhwyster gradd neu gymhwyster ym maes Rheoli Hamdden/Twristiaeth neu faes tebyg.

**Gwybodaeth,
Sgiliau a
Chymwyseddau**

Yn medru ymgysylltu ag ystod eang o unigolion, cydweithwyr, budd-ddeiliaid, adrannau gwasanaeth, y gymuned, llywodraeth a busnesau (C).

Yn arddangos dealltwriaeth sylfaenol o'r ardal leol a'r gallu i ddysgu mwy (A/C).

Sgiliau arwain, cyfathrebu a rhyngpersonol ardderchog gyda'r gallu i gyfathrebu yn glir a gwahaniaethu rhwng yr angen i gyfathrebu yn wahanol gyda chynulleidfaedd gwahanol. (A/C)

Yn medru datblygu achosion busnes, asesu manteision i arferion gwaith y timau ac ystyried yr agweddau cyllidol. (C)

Yn medru delio yn effeithiol gydag amwysedd a blaenoriaethu a rheoli eu llwyth gwaith eu hunain. (C)

Ymroddiad at ddarparu gwasanaeth ardderchog, yn gosod anghenion y defnyddwyr a chwsmeriaid wrth galon eich gwaith. (C)

Yn medru creu adroddiadau sydd wedi eu strwythuro yn dda a'n datblygu profiadau ymwelwyr er mwyn cynyddu incwm. (C)

Personol

Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus.

Rhinweddau

Ymroddiad at bolisiâu a gweithdrefnau Diogelu, gan gynnwys cwblhau hyfforddiant diogelu priodol. (C)

Yn fodlon ymgysylltu gyda gwirfoddolwyr. (C)

Ymroddiad at bolisi cyfle cyfartal, gan gynnwys cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth cyfle cyfartal priodol. (C)

Arall

Y gallu i yrru a'n meddu ar gar at ddibenion gwaith a thrwydded yrru gyfredol.

Sgiliau Iaith Gymraeg (A/C).